*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 850 (Cy. 198)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Dod i Ben yn Gynnar: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021

*Gwnaed - - - - 15 Gorffennaf 2021*

*Yn dod i rym - - 31 Gorffennaf 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 90(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**) ("y Ddeddf"), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod yr amodau a bennir yn adran 90(7) o'r Ddeddf wedi eu bodloni mewn perthynas â'r darpariaethau y mae'r Rheoliadau hyn yn dod â hwy i ben.

Yn unol ag adran 94(1) o'r Ddeddf, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Dod i Ben yn Gynnar: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Gorffennaf 2021.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf y Coronafeirws 2020.

### Dod â darpariaethau'r Ddeddf sy'n gymwys yng Nghymru i ben yn gynnar

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i ben ar 1 Awst—

(a) Rhan 2 o Atodlen 12 (pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru)(**3**);

(b) adran 15 (gofal a chymorth gan awdurdodau lleol), i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 o Atodlen 12.

(**1**) 2020 p. 7 ("y Ddeddf"). Mae'r pwerau a roddir i awdurdod cenedlaethol perthnasol gan adran 90(1) o'r Ddeddf yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru; *gweler* adran 90(5) a (7) am y diffiniad o "relevant national authority".

(**2**) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Ddeddf at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) Mae dod â Rhan 2 o Atodlen 12 (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno) i ben yn cymryd effaith yn ddarostyngedig i adran 89(2)(r) o'r Ddeddf, sy'n darparu na fydd darpariaethau penodol o'r Ddeddf yn dod i ben ac y byddant yn parhau i gael effaith. Y darpariaethau perthnasol yw paragraffau 30, 33 a 35 o Atodlen 12 (ac adran 15 a pharagraff 19 o Atodlen 12 i'r graddau y maent yn ymwneud â'r paragraffau hynny).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Gorffennaf 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu i ddarpariaethau penodedig yn Neddf y Coronafeirws 2020 ("y Ddeddf") sy'n addasu dyletswyddau penodol awdurdodau lleol mewn perthynas â gofal cymdeithasol i oedolion o dan Rannau 3 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddod i ben.

Mae rheoliad 2 yn darparu i Ran 2 o Atodlen 12 i'r Ddeddf, ac adran 15 ohoni (i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno) ddod i ben yn gynnar. Cafodd gweithrediad y darpariaethau hyn ei atal dros dro gan Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Atal Dros Dro: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/316 (Cy. 81)).

Mae dod â'r darpariaethau a bennir yn rheoliad 2 i ben yn cymryd effaith yn ddarostyngedig i adran 89(2)(r) o'r Ddeddf sy'n eithrio paragraffau penodol o Atodlen 12 (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny) rhag dod i ben.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.